**Jane Hutt AS/MS**
**Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol**
**Minister for Social Justice**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1331
Ein cyf/Our ref JH-/00265/23

Jack Sargeant AS
Cadeirydd – y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

03 Mai 2023

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr diweddar ar ran y Pwyllgor Deisebau mewn perthynas â Deiseb P-06-1331 yn gofyn inni ystyried gweithredu gofynion cyfreithiol ar fusnesau preifat er mwyn sicrhau eu bod yn hygyrch i bawb. Daw hyn o ganlyniad i waith a gynhaliwyd gan ddysgwyr yn Ysgol Gynradd Libanus sydd wedi bod yn edrych ar y Model Cymdeithasol o Anabledd.

Rwy'n hapus i glywed bod dysgwyr yn Ysgol Gynradd Libanus wedi cymryd diddordeb yn y mater hwn ac wedi ymchwilio i'w tref leol i weld pa mor hygyrch a chynhwysol yw'r dref ar gyfer pobl anabl.

Mae Llywodraeth Cymru yn gwbl ymrwymedig i gefnogi'r holl bobl anabl yng Nghymru. Rydym wedi sefydlu Tasglu Hawliau Pobl Anabl a chaiff ei gynnal tan 2024. Mae'n dod â phobl sydd â phrofiad bywyd, Arweinwyr Polisïau Llywodraeth Cymru, a chynrychiolwyr sefydliadau ynghyd i nodi'r materion a'r rhwystrau sy'n effeithio ar fywydau llawer o bobl anabl. Mae'r Tasglu yn gweithio o fewn cwmpas cylch gwaith cyfreithiol Llywodraeth Cymru ac nid mewn meysydd sy'n dod o dan gyfrifoldebau Llywodraeth y DU yn unig.

Sefydlodd y Tasglu grŵp blaenoriaethu i nodi'r blaenoriaethau allweddol ar gyfer ei raglen waith. Byddant yn mynd i'r afael â'r rhain drwy ddatblygu gweithgorau. Ym mis Chwefror 2022, nodwyd y ffrydiau gwaith canlynol fel meysydd blaenoriaeth ar gyfer y rhaglen waith:

- Ymgorffori a Deall y Model Cymdeithasol o Anabledd (ledled Cymru)
- Mynediad at Wasanaethau (gan gynnwys gwasanaethau Cyfathrebu a Thechnoleg)

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

- Byw’n Annibynnol: Iechyd, Lles a Gofal Cymdeithasol *(bellach wedi’i rannu yn ddau grŵp ar wahân)*
- Teithio
- Cyflogaeth ac Incwm
- Tai Fforddiadwy a Hygyrch
- Plant a Phobl Ifanc

Mae gan y Gweithgorau amrywiaeth o randdeiliaid sy’n cynnwys sefydliadau sy’n cefnogi pobl anabl, pobl anabl â phrofiad bywyd, ac arweinwyr polisïau Llywodraeth Cymru.

Ers mabwysiadu’r Model Cymdeithasol o Anabledd yn ffurfiol yn 2002, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn ymroddedig i gymhwyso’r model ym mhopeth y mae’n ei wneud. Mae darparu hyfforddiant ar gydraddoldeb i bobl anabl wedi bod yn allweddol i gyflawni’r ymrwymiad hwn.

Mae pob aelod o’r Tasglu a’r gweithgorau wedi cael cynnig hyfforddiant ar y Model Cymdeithasol o Anabledd, a bydd yr hyfforddiant hwn yn parhau ar gyfer aelodau newydd y Tasglu a staff Llywodraeth Cymru yn gyffredinol.


Mae dyletswydd yn Neddf Cydraddoldeb 2010 i wneud addasiadau rhesymol. Fel rhan o’r ddyletswydd mae’n rhaid i rai pobl neu sefydliadau fel cyflogwyr, siopau, awdurdodau lleol ac ysgolion gymryd camau cadarnhaol i chwalu’r rhwystrau a wynebir gan bobl anabl. Diben hyn yw sicrhau bod pobl anabl yn cael yr un gwasanaethau â phobl nad ydynt yn anabl.

Mae’r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn darparu canllawiau i ddarparwyr gwasanaethau ynghylch eu dyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ac maent ar gael yma:

Canllawiau i ddarparwyr gwasanaeth | Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (equalityhumanrights.com)

Rwy’n disgwyl i waith y Tasglu Hawliau Dynol arwain at gynllun gweithredu clir a sylweddol i wella cydraddoldeb ar gyfer pobl anabl yng Nghymru. Caiff y cynllun ei gyd-gynhyrchu â phobl anabl a sefydliadau pobl anabl. Gwneir hyn i sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn rhoi mesurau ar waith a fydd yn cael effeithiau cadarnhaol ar y meysydd angenrheidiol i sicrhau bod rhwystrau’n cael eu chwalu ar gyfer pobl anabl yn systematig.

Yn gywir,



**Jane Hutt AS/MS**
Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol
Minister for Social Justice